

## **PARC GWLEDIG CWM DÂR - SAFLE CARAFANAU**

**Aberdâr, CF44 7RG**

**Ffôn: 01685 874672**

**E-bost: ParcGwledigCwmDâr@rctcbc.gov.uk.**

Tynnwn eich sylw at y Telerau ac Amodau canlynol:

1. Ar ôl cyrraedd y Parc, mae disgwyl i bawb sy'n aros ar y maes carafanau gofrestru yn y dderbynfa yn y Ganolfan Dreftadaeth – sydd ar agor: (Llun - Gwener 9am-4pm)

Dylai unrhyw ymwelydd sy'n cyrraedd y tu allan i'r oriau agor ffonio ymlaen llaw er mwyn i ni gael gwneud trefniadau arbennig. Rhaid rhoi manylion cyswllt llawn.

### **Rhaid i oedolyn 18 oed neu hŷn gymryd cyfrifoldeb am bob archeb.**

2. Bydd eisiau i bob carafán, cartref modur a phabell drelar fod yn gynnwys gwneuthurwr masnachol ac mewn cyflwr da.

3. Bydd angen talu ymlaen llaw am leiniau. Bydd rhif llain yn cael ei ddyrannu/codau bloc cawod yn cael eu rhoi wrth gadw lle.

4. Rhaid i garafanau, cartrefi modur a phebyll trelar barcio ar y rhif llain a ddyrannwyd.

5. Fydd dim hawl gennych chi i osod carafán, cartref modur na phabell drelar ar y gwair rhwng y brif ffordd a'r lleiniau caled ar gyfer carafanau, na chwaith ar y gwair ar bwys bloc y toiledau/cawodydd. Fydd dim hawl gyda chi i osod strwythurau eraill ar y maes carafanau, megis storffeydd neu siediau dros dro, pebyll eraill ac ati.

6. Bydd eisiau i bob carafán aros ar ei llain ei hun, oni bai bod y rheolwr yn gofyn bod y garafán yn cael ei symud.

7. Rhaid gosod pob darn o sbwriel yn y biniau sydd ar gael, a bydd eisiau cadw'r lleiniau yn dwt ac yn daclus ar bob adeg.

8. Mae croeso i gŵn yn y Parc Gwledig. Gofynnwn i'r perchnogion gadw eu cŵn dan reolaeth ar bob adeg. Rhaid i'r perchennog godi baw eu cŵn (mae bagiau baw cŵn ar gael o'r dderbynfa). Does dim hawl gosod cytiau cŵn ar y safle.

9. Y cyfnod hwyaf mae modd i unrhyw berson aros ar y safle yw pythefnos ar y tro (ar yr amod ei fod yn cael ei dalu ymlaen llaw). Does dim hawl dychwelyd am bythefnos a does dim hawl aros ar y safle am fwy na chyfanswm o chwe wythnos mewn blwyddyn.

Bydd croeso i unigolyn gael hyd at 4 ymweliad y flwyddyn, ac un taliad = un ymweliad.

Bydd eisiau cael caniatâd gan y rheolwr neu'r rheolwr cynorthwyol er mwyn ymestyn y cyfyngiadau yma.

10. Does dim hawl parcio tryciau na cherbydau masnachol ar y safle. Does dim hawl cael mwy nag un cerbyd ar gyfer pob carafan. Rhaid parcio cerbydau eraill yn y maes parcio ar gyfer ymwelwyr. Mae Parc Gwledig Cwm Dâr yn un o gyfleusterau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

11. Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn gyfrifol am y plant dan eu gofal.

12. Dim gemau pêl, beicio, sglefrfyrdio na sglefrolio ar y maes carafanau.

13. Bydd croeso i chi gynnal barbeciw, ar yr amod eich bod chi'n defnyddio offer priodol a diogel, ynghyd ag offer diffodd tân sydd wedi'i gymeradwyo gan y Sefydliad Safonau Prydeinig neu debyg. Dim tanau agored na lleoedd tân wedi'u hadeiladu. Rhaid i westeion osgoi llosgi'r glaswellt a'r byrddau picnic. Rhaid cael gwared â lludw yn ofalus wedi iddo oeri.

14. Bydd eisiau i bob barbieciw, parti, cerddoriaeth a dathliad cymdeithasol ddod i ben erbyn 11.00pm.

15. Fydd gwesteion na'u hanifeiliaid anwes ddim yn achosi unrhyw niwsans i unrhyw ddefnyddwyr eraill y safle.

16. Mae toiledau a chawodydd at ddefnydd carafanwyr yn unig. Caewch y drysau ar ôl eu defnyddio i'w cadw'n ddiogel.

**Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn wrth ddefnyddio'r cyfleusterau toiled a'r cawodydd.**

17. Mae'r basnau ymolchi yn y toiledau i'w defnyddio er mwyn ymolchi wynebau a dwylo yn unig. Mae man penodol ar gael yn y prif gyntedd a'r tu allan i'r brif fynedfa (ar y dde) er mwyn golchi dillad a llestri.

18. Dim leiniau dillad, heblaw am bethau sychu dillad sy'n hongian oddi ar ffenestri'r garafán. Mae peiriannau golchi a sychu ar gael yn y cyntedd. Mae tocynnau yn £3 yr un ac mae modd eu prynu wrth ddesg y Dderbynfa yn y Ganolfan Etifeddiaeth.

19. Rhaid parchu'r cyfyngiad cyflymder o 10 milltir yr awr ar y safle ar bob adeg. 20.

Bydd hawl gennym ni i atal unrhyw unigolyn neu unigolion rhag dod i mewn i'r Parc heb roi rheswm.

Diolch